John Wesley 1703–1791

Sylfaenydd Methodistiaeth

Tarddai John Wesley o deulu pur drawiadol yn hanes crefydd Lloegr a'r byd. Bwriwyd ei hen daid Bartholomew Wesley allan o'r Eglwys Anglicanaidd ym 1662 oherwydd ei ddaliadau Piwritanaidd. Ganwyd John Wesley ar 17 Mehefin 1703 yn rheithordy Epworth, Swydd Lincoln, yn drydydd plentyn ar ddeg i Samuel a Susanna Wesley. Magwyd y teulu yn yr Eglwys Anglicanaidd ac yr oedd y rhieni yn uchel eglwysig. Pan oedd John yn chwech oed aeth y rheithordy ar dân a dim ond trwy feddylgarwch cymydog yr achubwyd John Wesley ychydig eiliadau cyn i'r to ddisgyn. Cafodd y digwyddiad hwn argraff ddofn arno ac fe ddyfynnai'r adnod, 'Onid marworyn wedi ei arbed o'r tân yw hwn?' (Sechareia 3:2). Roedd ei fam yn ddylanwad mawr arno. Credai hi'n gryf mewn trefn gyda bwyta, cysgu, addysgu a chrefydd ac fe gynhaliai oedfa o fawl yn gyson gyda'r plant ar yr aelwyd.

Ym 1714 aeth John yn ddisgybl i'r Charterhouse, Llundain, ac o'r fan honno aeth yn fyfyriwr i Goleg Eglwys Crist, Rhydychen, ym 1720 gan ennill gradd BA ym 1724. Yn y cyfnod hwn dechreuodd ystyried ei fywyd ysbrydol o ddifrif. Ym 1725 fe'i hordeiniwyd yn ddiacon, enillodd radd MA ym 1727 ac fe'i hordeiniwyd yn offeiriad ym 1728.

Y flwyddyn ddilynol sefydlodd yr 'Holy Club' i astudio Cristnogaeth ac i ymweld â chleifion a charchardai. Gelwid y Clwb yn ddirmygus gan rai yn Fethodistiaid, term y daeth John Wesley i'w anwylo yn ddiweddarach. Ym 1735 derbyniodd wahoddiad gan y 'Society for the Propagation of the Gospel in Foreign Parts' i fynd i Georgia, Unol Daleithiau America, fel cenhadwr ymhlith yr Americaniaid brodorol. Tra oedd yno cyhoeddodd ei lyfr emynau cyntaf sef *A collection of Psalms and Hymns.* Ar y fordaith yno ar y llong *Simmonds* daeth i gysylltiad â'r Morafiaid a ddylanwadodd arno. Cafodd ei synnu gan eu diffyg cynnwrf mewn storm fawr yn ystod y fordaith drosodd. Wedi iddynt lanio gofynnodd A. G. Spangenberg iddo, 'A wyt yn adnabod Iesu Grist?' Atebodd John Wesley, 'Rwy'n gwybod mai ef yw Gwaredwr y byd.' 'Gwir,' meddai

Spangenberg, 'ond a wyt yn gwybod ei fod wedi dy achub di?' 'Rwy'n gobeithio ei fod wedi marw i fy achub i,' oedd ateb ansicr John Wesley. Ar y fordaith adref ym 1738 ysgrifennodd, 'Euthum i America i achub Indiaid, ond Oh! Pwy wnaiff fy achub i?' Roedd mewn dryswch ysbrydol ond, wedi iddo ddychwelyd i Loegr, anogodd ei gyfaill Peter Bohler ef gan ddweud, 'Pregethwch nes y bydd gennych ffydd ac wedi ei chael pregethwch hi.' Un noson aeth John Wesley yn anfoddog i gymdeithas grefyddol yn Aldersgate Street, Llundain, ac yno daeth i brofiad a chredu yn Iesu Grist wrth i ragarweiniad Martin Luther i'r Epistol at y Rhufeiniaid gael ei ddarllen. Yn ystod y cyfarfod 'teimlodd ei galon yn cael ei chynhesu' ac fe gafodd ei achub ar 24 Mai 1738. Tröedigaeth oedd hon a effeithiodd yn fawr ar hanes crefydd yn Lloegr. Yn fuan sefydlodd fudiad adfywiol y Methodistiaid o fewn yr Eglwys Anglicanaidd. Cychwynnodd seiadau, sef cylchoedd bychain o bobl oedd yn cyfarfod i drafod y Beibl, gweddïo a rhannu eu profiadau ysbrydol. Sefydlwyd seiat yn Fetter Lane, Llundain, ym 1738 ac ym Mryste ar ddiwedd 1739. Dechreuodd hefyd bregethu yn yr awyr agored a deuai miloedd o bobl i wrando arno. Cynyddodd y mudiad; ym 1742 rhannwyd y seiadau lleol yn ddosbarthiadau ac yn raddol yr oedd rhwydwaith yn datblygu yn gylchdeithiau.

Roedd John Wesley yn drefnwr ardderchog ac arolygai yn fanwl yr holl ddatblygiad. Cododd yr angen am gapeli a'r cyntaf oedd y King's Foundery yn Llundain. Ym 1744 galwyd cynhadledd er mwyn rhoi strwythur i'r datblygiadau. Priododd Mary Vazeille ym 1751. Tros y blynyddoedd bu dadlau tanbaid rhwng Methodistiaid Calfinaidd a John Wesley oherwydd ei fod yn gwrthod athrawiaeth rhagarfaethiad. Credai ef fod achubiaeth ar gael i bawb gyda rhyddid i dderbyn neu wrthod cynnig Duw.

Trwy gydol ei oes dangosodd haelioni mawr tuag at yr anghenus. Er nad oedd ei gyflog gan y Methodistiaid yn ddim ond rhyw £30 y flwyddyn roedd ei gyhoeddiadau yn cynhyrchu tua £10,000 yn flynyddol, a chyfrannai'r cwbl tuag at yr anghenus a mudiadau. Roedd yn awdur toreithiog a ysgrifennodd lyfrau fel *A Survey of the Works of God in Creation* (1775) a *History of England* (1776). Pregethodd ei bregeth olaf yn Chwefror 1791. Bu farw yn ei gartref ar 2 Mawrth a chladdwyd ei weddillion yn City Road Chapel.